

## **Arolygiad Dadwenwyno rhag Cyffuriau ac Alcohol (Dirybudd)**

**Cais Ltd; Ysbyty Hafan Wen,  
Uned Hafan Wen**

26– 28 Ionawr 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Contents

- 1. Cyflwyniad..... 2
- 2. Methodoleg ..... 3
- 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth ..... 4
- 4. Crynodeb ..... 5
- 5. Canfyddiadau ..... 7
  - Safonau Craidd ..... 7
  - Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl..... 15
- 6. Y Camau Nesaf..... 16
  - Atodiad A..... 17

## 1. Cyflwyniad

Mae Hafan Wen wedi ei chytundebu i ddarparu gwelyau dadwenwyno ar gyfer cyffuriau ac alcohol i'r GIG yng ngogledd Cymru ac i rai o'r timau cyffuriau ac alcohol yn rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r GIG hefyd yn prynu yn ôl y galw gan y gwasanaeth ar draws gweddill Cymru, ac weithiau mae cleientiaid sy'n cael eu hariannu'n breifat hefyd yn prynu yn ôl y galw gan y gwasanaeth.

Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, os yw'n berthnasol, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleientiaid, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaeth
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)<sup>1</sup>
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, a phryderon, a chofnodion atgyfeirio Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu, a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyriaeth o ansawdd bwyd
- Gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a llyeg ar gyfer y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o safon y gofal mae cleifion yn ei dderbyn.

---

<sup>1</sup> Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Ymgwymerodd AGIC ag ymweliad dirybudd ag Ysbyty Hafan Wen, Wrecsam, gyda'r nos ar 26 Ionawr a thrwy'r dydd ar 27 a 28 Ionawr 2015.

Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Ionawr 1997, ac ar hyn o bryd mae'n gofrestredig i gymryd 25 cleient dros 18 mlwydd oed ar gyfer dadwenwyno rhag caethiwed i gyffuriau neu alcohol.

Mae Hafan Wen yn cael ei weithredu gan CAIS Limited; mae'r sefydliad wedi ei leoli o fewn tir Ysbyty Maelor Wrecsam, ac mae'n hawdd ei gyrraedd mewn car, bws, neu wrth gerdded.

Mae pob cleient sy'n cael ei dderbyn i Hafan Wen yn cael eu hatgyfeirio gan dimau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol ac yn parhau i fod yn gleientiaid i'r tîm hwnnw trwy gydol eu harhosiad. Nid yw'r uned yn darparu ar gyfer cadw unigolion dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ond mae nifer o gyfyngiadau personol oherwydd natur y gwasanaeth. Mae cleientiaid yn cael eu hysbysu'n llawn am y cyfyngiadau hyn, ac mae gofyn iddynt gydsynio â nhw fel rhan o delerau ac amodau cael eu derbyn. Mae hyn

yn cynnwys ymweliadau cyfyngedig a chyfyngiadau ar adael y safle.

Mae'r uned yn ddiogel, ac mae staff yn rheoli mynediad i mewn ac allan o'r adeilad. Mae camerâu teledu cylch cyfyng yn ychwanegu at ddiogelwch yr adeilad, ac maent wedi eu lleoli y tu allan i'r ysbyty a'r tai allan.

## 4. Crynodeb

Amlygodd ein hymweliad â Hafan Wen nifer o arferion nodedig yn ogystal â meysydd sydd angen eu gwella. Gwnaethom nodi'r ffordd gadarnhaol roedd staff yn ymgysylltu â'r broses arolygu, ond, yn bwysicach, y berthynas gadarnhaol a welsom rhwng cleientiaid a staff. Roedd pob cleient y gwnaethom siarad â nhw trwy gydol ein hymweliad yn canmol yr holl staff yn Hafan Wen.

Soniodd y mwyafrif o staff y gwnaethom siarad â nhw am y perthnasau gweithio da ledled yr ysbyty, ac roedd hyn yn cynnwys barn broffesiynol a geisiwyd mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol. Gan nad oedd seicolegydd yn gweithio yno ar adeg ein hymweliad, roeddem yn pryderu ynghylch y cyfraniad cyfyngedig o ran seicoleg yn yr uned, ac mae angen rhoi sylw i hyn. Rhaid cymeradwyo'r defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer amryw o fentrau, yn benodol Full Circle<sup>2</sup>.

Roedd glendid yn dda ym mhob rhan o Hafan Wen, ac roedd elfennau o ailaddurno ac ailwampio'n cadarnhau ymrwymiad Cais Limited i ddarparu cyfleusterau a llety addas ar gyfer uned sydd â throsiant uchel iawn o gleientiaid. Roedd carpedi gyda staeniau arnynt mewn rhai ardaloedd, a dylid ystyried defnyddio defnydd llawr y gellir ei lanhau a'i gynnal yn hawdd.

Roedd y lolfeydd dynodedig ar gyfer dynion a merched, ynghyd â dwy lolfa rhyw cymysg, yn rhoi digon o le i gleientiaid gymysgu â'r naill ryw a'r llall. Yn ogystal, roedd yr ardaloedd gweithgareddau hamdden a chymdeithasol yn cael eu defnyddio llawer ac yn cael eu gwerthfawrogi gan bawb y gwnaethom siarad â nhw. Roedd yr ardal ysmegu ddynodedig yn edrych yn anniben ac roedd angen sylw.

Roedd gweinyddu meddyginiaeth yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i ymgysylltu â chleientiaid mewn rhyngweithio therapiwtig. Fodd bynnag, daeth nifer o broblemau sylweddol i'r amlwg yn yr adolygiad o'r cofrestrau cyffuriau a reolir.

---

<sup>2</sup> Mae defnyddwyr gwasanaeth yn Hafan Wen yn elwa ar gael cynnig eiriolaeth, cymorth ac arweiniad trwy gydol eu harhosiad ar ffurf grŵp neilltuol o gyn-ddefnyddwyr gwasanaeth o'r enw Full Circle. Mae'r grŵp yn cynnwys chwech o gyn-ddefnyddwyr gwasanaeth Hafan Wen ledled pob sir yng ngogledd Cymru sy'n rhan o grwpiau gwella seiliedig yn y gymuned, yn rhannu profiad o wella ac yn ymchwilio pryderon ac ofnau y gall defnyddwyr gwasanaeth fod yn eu profi. Am ragor o wybodaeth: <http://www.explore-cais.co.uk/?pageid=170>

Ymhelaethir ar y problemau hyn yn fwy manwl yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Dangosodd ein hadolygiad o gynlluniau gofal a thriniaeth cleientiaid feysydd oedd angen sylw. Roedd diffyg manylder digonol a strategaethau cadarn ar gyfer ymdrin â phroblemau cleientiaid mewn cynlluniau gofal. Pan ganfuwyd problemau pellach gyda chleientiaid, nid oedd cynllun gofal wedi cael ei lunio i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Nid oedd asesiadau derbyn wedi cael eu llofnodi na'u dyddio gan y nyrsys cofrestredig, ac nid oedd yr asesiadau risg a adolygwyd wedi casglu gwybodaeth yr asesiad cyn derbyn.

Roedd yr adolygiad o ffeiliau staff yn dangos diffyg gwybodaeth am gyflogaeth, yn benodol tystiolaeth bod gweithwyr yn meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol ar gyfer eu rolau. Nododd un ffeil nad oedd yn arfer da i gynnwys yr wybodaeth hon yn y ffeil, ac felly nid oeddem yn gallu gwneud sylwadau ar y maes hwn. Roedd angen rhoi sylw i drefniadau goruchwylio staff gan nad oedd y system bresennol wedi eu hymgorffori'n llawn. Mae angen ymgymryd â goruchwyliaeth yn rheolaidd ar gyfer yr holl staff. Mae angen system well ar gyfer cofnodi a monitro hyfforddiant staff i sicrhau ei fod yn dangos graddau cydymffurfiaeth.



## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y ward**

Mae Hafan Wen yn adeilad dau lawr gydag esgynnydd yn mynd i'r llawr cyntaf. Mae 25 ystafell wely sengl gyda chyfleusterau cawod a thoiled en-suite. Mae dwy ardal lolfa/fwyta ar y llawr cyntaf sy'n benodol ar gyfer cleientiaid gwrywaidd a benywaidd. Mae mannau paratoi byrbryd yn yr ardaloedd lolfa/bwyta lle gall cleientiaid baratoi diodydd, byrbrydau a brecwast eu hunain. Roedd gan bob lolfa deledu, a chawsom ein sicrhau bod seddi newydd wedi cael eu harchebu. Ar adeg ein hymweliad, roedd y seddi wedi cael llawer iawn o ddefnydd ac roedd angen rhai newydd.

Mae nifer o ystafelloedd therapi ar y llawr cyntaf gan gynnwys yr ystafell Gelf/Technoleg Gwybodaeth (TG) a'r ystafell ymlacio. Mae'r ystafell Gelf/TG yn cynnwys pum cyfrifiadur at ddefnydd cleientiaid yn ogystal â llawer o offer celf, ac mae gwaith cleientiaid yn cael ei arddangos ar y waliau a'r sillfoedd. Roedd yr ystafell ymlacio wedi cael ei haddurno'n lliwgar, gyda murluniau ar y wal ac roedd yn cynnwys cadeiriau, system gerddoriaeth a thanc pysgod.

Ar y llawr daear, roedd swyddfa nyrsio, ystafell ymgynghori meddyg, a chyfleusterau staff a swyddfeydd eraill. Roedd lolfa rhyw cymysg hefyd ar gael ger yr ardal ysmegu ddynodedig. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr ardal ysmegu'n fudr ac mae angen ei glanhau'n drwyadl.

Mae canolfan therapi a gweithgareddau ar dir yr ysbyty o'r enw 'Y Cwt'. Mae'r Cwt yn cael ei ddefnyddio bob dydd ar gyfer cyfarfodydd cleientiaid yn y bore a grwpiau therapi cleientiaid. Mae'r Cwt hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd allanol gan gynnwys Alcoholics Anonymous a Narcotics Anonymous. Mae gweithgareddau hamdden yn digwydd yn y Cwt yn cynnwys dartiau, pŵl, a thennis bwrdd, ac mae campfa ar gael hefyd. Mae cleientiaid yn gallu defnyddio'r Cwt gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Roedd yr ysbyty wedi cael ei ailaddurno yn 2014, felly roedd yr amgylchedd yn ffres a golau yn ôl pob golwg. Yn ogystal, roedd y Cwt wedi cael carped a bleindiau newydd.

Roedd y carped yn y clinig yn dangos staeniau, a byddai'r clinig yn elwa ar gael defnydd llawr sy'n fwy addas ac y gellir ei olchi.

## **Argymhelliad**

***Mae angen i'r ysbyty roi diweddariad a chadarnhad i AGIC bod seddi newydd wedi eu prynu ar gyfer y lolfeydd a'u bod wedi cyrraedd.***

***Mae angen i'r ysbyty adolygu'r ardal ysmegu i gleientiaid i sicrhau ei bod yn lân ac yn addas.***

***Dylai'r ysbyty edrych ar y llawr yn ystafell y clinig ac ystyried rhoi defnydd llawr mwy addas yno yn lle'r carped gyda staeniau.***

## **Diogelwch**

Dywedodd pob cleient y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein hymweliad eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty. Roedd staff yn ystod y dydd yn cynnwys tair nyrs gofrestrdig gyda chymorth gan un myfyriwr nyrsio a dau gynorthwydd gofal iechyd. Yn ystod ein hymweliad gyda'r nos, roedd staff yn cynnwys un nyrs gofrestrdig a dau gynorthwydd gofal iechyd. Dywedodd mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw fod lefelau staffio'n ddigonol, er i rai nodi petai aelod o staff yn ffonio i ddweud ei fod yn sâl y gallai hynny arwain at brinder staff.

Nid oedd staff yn gwisgo neu gario larwm personol pan oeddent ar ddyletswydd. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty'n gweithredu system galw, lle mae'r nyrs â gofal yn rhoi galwr i staff dethol. Os oes digwyddiad, mae'r galwr yn hysbysu'r aelod o staff fel y gall ddarparu cymorth. Ar noson gyntaf ein hymweliad, roedd un o'r galwyr wedi cael ei adael ar y bwrdd yn ystafell y staff. Felly, petai rhywbeth wedi digwydd, ni fyddai'r aelod staff y dyrannwyd y galwr iddo wedi gallu ymateb gan nad oedd y galwr ganddo. Cadarnhaodd rheolwr yr ysbyty fod yr ysbyty'n defnyddio meini prawf gwahardd; os yw cleient yn ymddwyn yn dreisgar a/neu'n fygythiol, yna ni fydd y cleient hwnnw'n cael mynediad. Mae Hafan Wen yn dibynnu ar awdurdodau eraill i ddarparu'r math hwn o wybodaeth cyn derbyn.

## **Y tîm amlddisgyblaeth**

Gwnaeth yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am waith y tîm amlddisgyblaeth. Nododd staff y tîm amlddisgyblaeth fod cyfarfodydd yn digwydd bob wythnos a bod pob disgyblaeth yn cael ei chynrychioli gan gynnwys y meddyg, nyrsys, a therapydd galwedigaethol, ac mae gweithiwr cymunedol hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu. Roedd y seicolegydd wedi gadael ychydig fisoedd yn ôl, ac nid oedd yn eglur a oedd y swydd yn mynd i gael ei llenwi. Dywedodd staff wrthym fod barn a safbwyntiau proffesiynol gan

bob disgyblaeth yn cael eu ceisio yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth a bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan ei gilydd.

Mae cyfarfodydd trosglwyddo'n digwydd bob dydd rhwng pob newid sifft gan sicrhau bod gan bob aelod o staff ar ddyletswydd wybodaeth gyfredol am y gwasanaeth a chleientiaid. Dywedodd staff wrthym fod agwedd staff wedi newid ers ein hymweliad diwethaf. Yn y gorffennol, bu llawer o wrthdaro, aelodau staff yn siarad am aelodau eraill, ac ymddygiad amhroffesiynol arall. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hyn wedi diflannu gan fod rhai aelodau o staff wedi gadael, ac mae rheolwyr yn ymdrin â'r materion hyn yn fwy effeithiol. O ganlyniad, roedd staff yn siarad am agwedd fwy proffesiynol, ac roedd staff yn mwynhau ac elwa ar ddeinamig tîm da.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Dyweddodd pob cleient y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Hafan Wen. Roedd llawer o'r cleientiaid y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent wedi bod ar raglen ddadwenwyno o'r blaen, ac fe wnaethant sôn am y profiad cadarnhaol yr oeddent yn ei dderbyn yn Hafan Wen er gwaethaf y pryder yr oeddent wedi ei deimlo i ddechrau.

Siaradodd cleientiaid yn gadarnhaol am yr holl staff yn yr ysbyty, gan ddweud eu bod yn hawdd mynd atynt ac yn ofalgar. Cadarnhaodd yr holl gleientiaid fod staff wedi dangos yr ysbyty iddynt pan gawsant eu derbyn i ddechrau ac esbonio beth oedd yn mynd i ddigwydd yn ystod eu harhosiad.

Roedd gan bob cleient ei ystafell ei hun, ac roeddent yn cael allwedd i gloi'r ystafell. Ni chododd y cleientiaid unrhyw bryderon ynghylch preifatrwydd ac urddas, gan nodi bod staff yn curo ar y drws cyn mynd i mewn i'w hystafell.

Mae'n bolisi gan Hafan Wen i beidio â chaniatáu ymweliadau gan deulu a ffrindiau er mwyn i gleientiaid ganolbwyntio ar eu triniaeth ac adferiad yn ystod eu harhosiad byr. Roedd systemau ar waith sy'n caniatáu i gleientiaid gysylltu â theulu a ffrindiau, ac roedd y rhain yn cynnwys ffôn talu a mynediad at ffonau'r swyddfa. Roedd cleientiaid hefyd yn cael defnyddio'u ffonau symudol eu hunain. Roedd cyfrifiaduron yn yr ysgafell Gelf/TG gyda mynediad i'r rhyngwyd y gellid eu defnyddio dan oruchwyliaeth.

### **Therapiau a gweithgareddau cleifion**

Mae Hafan Wen yn darparu agenda therapi orfodol i gleientiaid sy'n llunio rhan o'u rhaglen driniaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Argymhellir amrywiaeth o weithgareddau i gleientiaid hefyd, ac mae'r rhain yn cynnwys mynediad i'r gampfa, bwrdd pŵl, dartiau, a thennis bwrdd. Yn y prif ysbyty, cynigir celf,

modelu clai, a gwaith cyfrifiadur. Y Cwt yw'r lleoliad ar gyfer y mwyafrif o therapïau a gweithgareddau sy'n digwydd yn Hafan Wen.

Ar adeg ein hymweliad, gwelsom dri chleient yn defnyddio'r ystafell Gelf/TG; roedd un cleient yn gorffen ei baentiad cyntaf. Roedd y cleientiaid i gyd yn sgwrsio gyda'r therapydd celf, a dangoswyd portffolio i ni o waith y gorffennol gan gynnwys gwaith clai a darluniau. Gwnaethom siarad â nifer o gleientiaid a ddywedodd wrthym ba mor werthfawr oedd yr adnoddau hyn; nid oedd rhai cleientiaid wedi paentio ers blynnyddoedd lawer ac fe wnaethant ailddarganfod eu cariad tuag at y gweithgaredd.

Mae'n ofynnol bod pob cleient, oni bai eu bod yn sâl iawn, yn mynychu'r cyfarfod bore yn y Cwt. Dywedodd staff a chleientiaid wrthym fod y cyfarfod hwn yn cael ei ddefnyddio i drafod popeth gan gynnwys cynllun ar gyfer y diwrnod. Mae staff a chleientiaid hefyd yn defnyddio'r cyfarfod bore i ddathlu'r cleientiaid hynny sydd wedi cwblhau eu rhaglen dadwenwyno trwy gyflwyno tystysgrifau.

Gwelsom sesiwn therapi grŵp yn ystod ein hymweliad. Cydweithiwr yn Hafan Wen oedd yn cynnal y sesiwn, ac fe ddechreuodd trwy gyfeirio at ei brofiadau adsefydlu ei hun. Gwrandawodd y cleientiaid ac yna cyfrannu eu safbwyntiau eu hunain. Cafodd rhai syniadau cadarnhaol ar gyfer helpu cleientiaid pan fyddant yn gadael yr ysbyty eu trafod. Yn ogystal, gwyliodd cleientiaid gyflwyniad a chafwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr arweinydd therapiwtig ynghylch y cynnwys. Rhoddwyd taflen i gleientiaid ar ddiwedd y sesiwn. Nodwyd bod y sesiwn grŵp yn fawr ac yn rhy fawr i ymyriadau personol; felly dim ond un dimensiwn oedd i'r trafodaethau, a byddai grwpiau llai yn fuddiol.

Mae'r grŵp Full Circle yn fenter yn Hafan Wen a dderbyniodd sylwadau cadarnhaol gan gleientiaid a staff. Mae'r grŵp yn cynnwys cyn-ddefnyddwyr y gwasanaeth sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty ac sydd wedi cwblhau'r cylch o ran eu triniaeth a datblygiad. Mae'r grŵp yn rhoi cymorth i gleientiaid yn yr ysbyty mewn perthynas ag eiriolaeth a chymorth gan gymheiriaid. Mae Full Circle yn casglu gwybodaeth gan gleientiaid ac yn rhoi adborth i'r ysbyty er mwyn gwella gwasanaethau.

Dywedodd cleientiaid wrthym fod eiriolydd yn ymweld bob wythnos. Mae cleientiaid yn cael eu hysbysu am apwyntiadau i weld yr eiriolydd yn y cyfarfodydd bore.

## **Gofal iechyd cyffredinol**

Canfu adolygiad o'r cofrestrau cyffuriau a reolir nifer o broblemau sylweddol gan gynnwys:

- Newidiadau amhriodol sy'n gwneud y cofnod gwreiddiol yn amhosib ei ddeall
- Yn ôl pob golwg, roedd nifer o gamgymeriadau wedi cael eu cofnodi o ran meddyginiaeth cleient unigol cyn gweinyddu'r feddyginiaeth
- Roedd nifer o gamgymeriadau cydbwysedd cyffuriau wedi parhau.

### ***Argymhellion***

***Rhaid rhoi sylw i bob maes a amlygir yn yr adran gofal iechyd cyffredinol sy'n ymwneud â chyffuriau a reolir. Yn benodol:***

***Rhaid i unrhyw newidiadau i'r gofrestr cyffuriau a reolir gael eu gwneud fel y gellir adnabod y cofnod gwreiddiol. Bydd hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth i'r unigolion hynny sy'n archwilio'r wybodaeth.***

***Ni ddylid cofnodi manylion ar y gofrestr cyffuriau a reolir cyn gweinyddu meddyginiaeth.***

***Mae angen adolygu a chywiro'r cydbwysedd meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod lefel y stoc yn gywir.***

### **Bwyd a maeth**

Amlygodd trafodaethau gyda chleientiaid a staff yr adborth arbennig o gadarnhaol ynghylch y bwyd a'r cogydd yn Hafan Wen. Roedd bwyd yn arfer cael ei baratoi a'i gludo i Hafan Wen o Ysbyty Maelor Wrecsam; fodd bynnag, roedd recriwtio cogydd a'r ffaith bod bwyd bellach yn cael ei goginio yn Hafan Wen wedi gwella adborth yn sylweddol am y maes hwn. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am faint dognau, dewis, ac ansawdd y bwyd gan bawb y gwnaethom siarad â nhw.

Roedd cleientiaid yn paratoi eu brecwast eu hunain, oedd yn cynnwys grawnfwyd a thost. Roedd cleientiaid yn rhoi tic wrth eu pryd o ddewis ar fwydlen ar gyfer cinio a phryd gyda'r nos. Darparwyd dau ddewis, ond os oedd gan gleient ofyniad diet penodol, byddai'r cogydd yn darparu'r dewis hwnnw. Roedd brechdanau'n cael eu paratoi ymlaen llaw, ac roedd y staff nos yn eu cynnig i gleientiaid gyda'r nos.

Roedd cleientiaid yn cael cyfle i brynu a chadw eu byrbrydau eu hunain, ac roedd peiriant gwerthu ar gael, yn gwerthu eitemau gan gynnwys creision a chaniau diodydd meddal. Roedd powlen o ffrwythau ar gael ger y gegin, ac roedd cleientiaid yn gallu defnyddio adnoddau gwneud te a choffi.

### **Hyfforddiant**

Gwnaethom adolygu naw ffeil staff a nodi trefn daclus pob ffeil. Roedd gwahanwyr yn cael eu defnyddio i wahanu gwybodaeth benodol a mynegai ar flaen pob ffeil i ddangos beth oedd pob adran yn ei chynnwys. Roedd hyn yn ei gwneud yn hawdd edrych drwy'r ffeil. Nid oedd ffeiliau cyflogeion yn cael eu cadw a'u cynnal yn Hafan Wen, ond yn y Brif Swyddfa, ond roeddem yn gwerthfawrogi bod y ffeiliau y gwnaed cais amdanynt wedi cael eu darparu ar gyfer yr arolygiad.

Dangosodd yr adolygiad o ffeiliau'r staff ddiffyg gwybodaeth am gyflogaeth, yn benodol tystiolaeth bod y cyflogai'n meddu ar y cymhwyster, sgiliau a phrofiad angenrheidiol ar gyfer ei swydd. Roedd un o'r naw ffeil yn cynnwys ffurflen gais, ac roedd un ffeil yn cynnwys cwestiynau cyn cyfweliad. Roedd yr holl ffeiliau eraill yn cynnwys nodyn oedd yn datgan: "Dim yn arfer da i roi nodiadau cyfweliad yn ffeiliau cyflogeion. Nodiadau cyfweliad yn cael eu cadw mewn ffeiliau ar wahân." Gan nad oeddem yn gallu gweld yr wybodaeth ar wahân, roedd yn anodd gweld tystiolaeth o addasrwydd cyflogeion.

Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys disgrifiad swydd a chontract cyflogaeth, ac roedd tystiolaeth ym mhob ffeil bod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gynnal ar gyfer y cyflogai. Roedd un ffeil allan o'r naw nad oedd yn cynnwys unrhyw eirdaon. Roedd y ffeil yn nodi "nad oeddent ar gael bellach". Nid oedd dwy ffeil arall yn cynnwys copiâu caled o unrhyw eirdaon, dim ond rhestr gydag enwau canolwyr.

Roedd cofnodion arfarnu a goruchwyllo'n cael eu cadw a'u cynnal ar safle Hafan Wen. Ar adeg ein hymweliad, roedd arfarniadau'n cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff er mwyn cwrdd â dyddiad cau'r sefydliad o ddiwedd mis Chwefror. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn arfarniad yn ystod y deuddeng mis diwethaf, a dywedodd rhai eu bod ar fin cael un.

Nid oedd goruchwyllo staff yn digwydd yn rheolaidd, ac nid oedd y system wedi ei ymgorffori'n llawn yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym mai'r seicolegydd oedd yn arfer â chynnal yr oruchwyliaeth glinigol. Fodd bynnag, roedd y seicolegydd wedi gadael ychydig o fisoedd ynghynt, ac roedd Hafan Wen yn aros i'r Therapydd Gwybyddol Ymddygiadol ddechrau rhaglen o arfer myfyriol.

Dywedwyd bod goruchwyliaeth gan y rheolwyr yn digwydd bob tri mis, ond nid oedd fawr o dystiolaeth i gadarnhau hyn ac nid oedd system ar waith a allai

ddangos tystiolaeth o lefelau cydymffurfiaeth gyfredol. Roedd sylwadau staff y gwnaethom siarad â nhw am oruchwylio rheolaidd yn amrywio. Cadarnhaodd y dirprwy reolwr fod amserlen yn cael ei chyhoeddi er mwyn i staff nodi'r dyddiad a'r amser ar gyfer cael eu goruchwylio nesaf. Hysbyswyd arolygwyr bod rhai aelodau o staff yn anfodlon cael eu goruchwylio, ond dywedodd rhai aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn hoffi derbyn mwy o oruchwyliaeth. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau bod angen sylw yn syth ar y mater hwn, ac mae angen datblygu, ymgorffori a chofnodi system ar gyfer goruchwylio staff yn rheolaidd.

Mae rhaglen hyfforddiant orfodol ar waith yn Hafan Wen ar gyfer yr holl staff. Ers ein hymweliad diwethaf ym mis Ionawr 2014, roedd cofnod hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu, a oedd yn cynnwys enw'r aelod o staff, y cwrs hyfforddi a fynychwyd, y dyddiad mynychu, ac adran ar gyfer nodi pryd bydd angen diweddarau'r hyfforddiant hwnnw. Cafodd AGIC anhawster i adolygu'r data a phenderfynu ar raddfa gyffredinol ar gyfer cydymffurfio i bob cwrs. Nid oedd y cofnod yn gallu dangos pa faes hyfforddiant oedd yn cydymffurfio'n llawn a pha gwrs/cyrsiau oedd angen sylw a gwell presenoldeb.

Mae'n ofyniad rheoleiddiol bod y darparwr cofrestredig yn ymweld â'r ysbyty ac adrodd ar eu canfyddiadau i AGIC. Nid yw AGIC wedi derbyn unrhyw adroddiadau, felly mae'n ofynnol bod y darparwr cofrestredig yn ymgymryd â'r ymweliad angenrheidiol i ymdrin â'r meysydd a nodir dan Rheoliad 28<sup>3</sup>.

Dangosodd adolygiad o Ddatganiad o Ddiben Hafan Wen rai anghysondebau, ac mae angen ei ddiweddarau. Mae'r meysydd sydd angen sylw'n cynnwys dyddiad i ddangos pryd y cafodd y Datganiad o Ddiben ei ddiweddarau diwethaf, pryd y bydd yn cael ei adolygu nesaf, a'r sefyllfa bresennol o ran cymwysterau a phrofiad staff.

### ***Argymhellion***

***Rhaid ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis a chyflwyno copi o'r adroddiad i AGIC.***

***Mae angen gwella'r cofnod hyfforddiant o ran cofnodi a monitro ffigyrau cydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer hyfforddiant staff.***

---

<sup>3</sup> Mae Rheoliad 28 yn ei gwneud yn ofynnol bod y darparwr cofrestredig yn ymweld â'r sefydliad ac yn adrodd ar nifer o feysydd gan gynnwys yr amgylchedd, cwynion a chyfweliadau gyda staff a chleientiaid i lunio barn am safon y driniaeth a gwasanaethau eraill.

***Rhaid gweithredu a chofnodi system ar gyfer goruchwylio staff yn rheolaidd, gan gynnwys system a all gofnodi graddau cydymffurfiaeth.***

***Mae angen adolygu ffeiliau staff a'u diweddarau i sicrhau cysondeb yr wybodaeth a gynhwysir ynddynt.***

***Mae angen Datganiad o Ddiben wedi ei ddiweddarau gan gynnwys dyddiad i ddangos pryd cafodd ei ddiweddarau ddiwethaf a dyddiad yr adolygiad nesaf. Mae angen adran wedi ei diweddarau ar gymwysterau a phrofiad staff er mwyn adlewyrchu disgwyliadau cyfredol Hafan Wen yn gywir yn y maes hwn.***



## ***Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl***

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth i bedwar cleient a nodi'r canlynol:

- Roedd gan gleientiaid gynlluniau gofal generig nad oeddent yn cynnwys digon o fanylder a strategaethau cadarn ar gyfer ymdrin â'r problemau a nodwyd
- Pan oedd cleient yn dangos problemau pellach, nid oedd cynlluniau gofal yn cael eu llunio i fynd i'r afael â'r problemau hynny
- Nid oedd yr asesiadau risg a adolygwyd yn cynnwys gwybodaeth yr asesiad cyn derbyn
- Nid oedd asesiadau derbyn wedi cael eu harwyddo na'u dyddio gan y nyrs gofrestrdig.

### ***Argymhellion***

***Mae angen i gynlluniau gofal gynnwys digon o fanylder a strategaethau cadarn ar gyfer ymdrin â'r problemau sydd gan bob cleient.***

***Mae angen i asesiadau risg gynnwys gwybodaeth yr asesiad cyn derbyn.***

***Rhaid i nyrsys cofrestredig lofnodi a rhoi dyddiad ar bob asesiad derbyn.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Hafan Wen gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei chynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Ysbyty Hafan Wen yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

## Atodiad A

### Dadwenwyno rhag Cyffuriau ac Alcohol: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Practics:

Hafan Wen

Dyddiad yr arolygiad:

26 – 28 Ionawr 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam gweithredu Hafan Wen	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen i'r ysbyty roi diweddariad a chadarnhad i AGIC bod seddi newydd wedi eu prynu ar gyfer y lolfeydd a'u bod wedi cyrraedd.	26 (2) (b) a (c)	Roedd seddi newydd wedi cael eu harchebu ar adeg yr arolygiad. Mae seddi newydd wedi cyrraedd ac wedi eu rhoi yn y pedair lolfha cleifion.	Rheolwr yr Ysbyty	Wedi'i gwblhau
	Mae angen i'r ysbyty adolygu'r ardal ysmegu i gleientiaid i sicrhau ei bod yn lân ac yn addas.	26 (2) (a)	Mae'r trefniant presennol o olchi'r man ysmegu ddwy waith y mis wedi cynyddu l bob wythnos. Aelod staff wedi ei wneud yn gyfrifol am sicrhau gwirio	Rheolwr yr Ysbyty	Wedi'i gwblhau

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam gweithredu Hafan Wen	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			glendid yn rheolaidd.		
	Dylai'r ysbyty edrych ar y llawr yn ystafell y clinig ac ystyried rhoi defnydd llawr mwy addas yno yn lle'r carped gyda staeniau.	26 (2) (a)	Fel rhan o ailwampio parhaus, bydd y carped yn y clinig yn cael ei godi a bydd llawr yn cael ei osod yn ei le a fydd yn hawdd ei gadw'n lân.	Rheolwr yr Ysbyty	Erbyn 1 Mai 2015
	Rhaid rhoi sylw i bob maes a amlygir yn yr adran gofal iechyd cyffredinol sy'n ymwneud â chyffuriau a reolir. Yn benodol:  Rhaid i unrhyw newidiadau i'r gofrestr cyffuriau a reolir gael eu gwneud fel y gellir adnabod y cofnod gwreiddiol. Bydd hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth i'r unigolion hynny sy'n archwilio'r wybodaeth  Ni ddylid cofnodi manylion ar y gofrestr	15 (5) (a) & (b) a 19 (1) (a) (b)	Gweithdrefn ar gyfer cyffuriau a reolir yn Hafan Wen wedi cael ei hadolygu a'i diweddarau. Mae'r weithdrefn ddrafft yn aros i gael ei chymeradwyo gan fwrdd cyfarwyddwyr CAIS. Bydd copi o'r weithdrefn yn cael ei hanfon at AGIC unwaith y caiff ei chymeradwyo.  Mae archwiliad o'r cyffuriau a reolir yn cael ei gynnal gan y nyrs â gofal yn y nos bob dydd.  Bydd adroddiad misol yn cael ei baratoi ac yn cael ei hysbysu fel rhan o gylch adborth ar ansawdd Hafan	Dirprwy Reolwr	Cyfarfod bwrdd nesaf 1 Mehefin.  Gweithdrefn newydd i gael ei gweithredu unwaith y caiff ei chymeradwyo gan y bwrdd.

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam gweithredu Hafan Wen	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	cyffuriau a reolir cyn gweinyddu meddyginiaeth.  Mae angen adolygu a chywiro'r cydbwysedd meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod lefel y stoc yn gywir.		Wen mewn cyfarfodydd tîm ansawdd misol.		
	Rhaid ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis a chyflwyno copi o'r adroddiad i a gyflwynir i AGIC	28 (1) (2) (a) (b) (c) (3) (4) (a) (b) (c) (5) (a) (b) (c)	Darparwr Cofrestredig – Adroddiad arolygu i gael ei gynnal bob chwe mis a chopi ohono i gael ei gyflwyno i AGIC.	Person enwebedig I ddod o blith gwasanaethau CAIS.	13 Ebrill 2015
	Mae angen gwella'r cofnod hyfforddiant o ran cofnodi a monitro ffigyrau cydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer hyfforddiant staff.	19 (1) (a)	Cofnod hyfforddiant wedi cael ei adolygu, ac mae matrices hyfforddi newydd yn cael ei ddatblygu.	Rheolwr yr Ysbyty Tiwtor TG	1 Mai 2015
	Rhaid gweithredu a chofnodi system ar gyfer goruchwyllo staff yn rheolaidd, gan gynnwys system a all gofnodi	20 (2) (a)	Adolygu'r fframwaith adolygu. Cynnig ar gyfer swydd 'nyrs arwain' gyda chyfarwyddwyr CAIS, ac yn disgwyl ymateb.	Rheolwr yr Ysbyty Dirprwy Reolwr	1 Gorffennaf 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam gweithredu Hafan Wen	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	graddau cydymffurfiaeth.		<p>Mae'r cynnig ar gyfer nyrs arwain i gydlynu, hwyluso a chofnodi sesiynau goruchwyllo grŵp rheolaidd.</p> <p>Goruchwyliaeth rheolwyr unigol i gael ei gweithredu a'i chofnodi'n rheolaidd.</p>	Dirprwy Reolwr	Ar unwaith ac yn barhaus
	Mae angen adolygu ffeiliau staff a'u diweddarau i sicrhau cysondeb yr wybodaeth a gynhwysir ynddynt.	20 (2) (a) (b) (c)	<p>Mae'r broses adolygu bresennol yn sicrhau bod nodiadau cyfweiliad ar gyfer ymgeiswyr yn cael eu cofnodi ar ddogfennau ar wahân, a'u gosod yn ffeiliau'r staff.</p> <p>Mae'r hen bolisi o ddileu geirdaon wedi cael ei adolygu, ac mae geirdaon yn cael eu cadw ar ffeil.</p> <p>Bydd gofyn i holl staff Hafan Wen gwblhau CV wedi ei diweddarau i ddangos tystiolaeth o gymwysterau perthnasol i swyddi.</p>	Rheolwr yr Ysbyty Adnoddau Dynol	1 Gorffennaf 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam gweithredu Hafan Wen	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen Datganiad o Ddiben wedi ei ddiweddarau gan gynnwys dyddiad i ddangos pryd cafodd ei ddiweddarau ddiwethaf a dyddiad yr adolygiad nesaf. Mae angen adran wedi ei diweddarau ar gymwysrerau a phrofiad staff er mwyn adlewychu disgwyliadau cyfredol Hafan Wen yn gywir yn y maes hwn.	8 (a) (b)	Datganiad o Ddiben Hafan Wen i gael ei adolygu a'i ddiweddarau.	Gwasanaethau Haen 4 Cyfarwyddwr Rheolwr yr Ysbyty Dirprwy Reolwr	1 Gorffennaf 2015
	Mae angen i gynlluniau gofal gynnwys digon o fanylder a strategaethau cadarn ar gyfer ymdrin â'r problemau sydd gan bob cleient	15 (1) (a) (b) (c) ac 19 (1) (a) (b)	Mae'r broses cynllunio gofal yn cael ei hadolygu.  Cynnig ar gyfer swydd 'nyrs arwain' gyda chyfarwyddwyr CAIS, ac yn disgwyl ymateb.  Mae'r cynnig ar gyfer nyrs arwain i gynnal archwiliad proses nyrsio yn rheolaidd ac adrodd fel rhan o gylch adborth ar ansawdd Hafan Wen mewn cyfarfodydd tîm	Rheolwr yr Ysbyty Rheolwr Dirprwy Reolwr  Pob nyrs gofrestrdig yn Hafan Wen	1 Mehefin 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam gweithredu Hafan Wen	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			ansawdd misol.		
	Mae angen i asesiadau risg gynnwys gwybodaeth yr asesiad cyn derbyn.	15 (1) (a) (b) (c) ac 19 (1) (a) (b)	Y broses cynllunio gofal gynnwys asesiad risg yn seiliedig ar wybodaeth atgyfeiriad.  Y broses cynllunio gofal I gynnwys cynlluniau rheoli risg.	Rheolwr yr Ysbyty Rheolwr Dirprwy  Pob nyrs gofrestredig yn Hafan Wen	1 Mehefin 2015
	Rhaid i nyrsys cofrestredig lofnodi a rhoi dyddiad ar bob asesiad derbyn.	15 (1) (a) (b) (c) ac 19 (1) (a) (b)	Nyrs â gofal i sichrau bod pob asesiad derbyn yn cael ei lofnodi a'i ddyddio ar y diwrnod derbyn.	Pob nyrs gymwys yn Hafan Wen	Ar unwaith ac yn barhaus